Wythnos Seiclo i'r Ysgol

# Cynllun gwers ysgrifennu llythyr

## Amcan

Defnyddio ysgrifennu perswadiol i gynllunio ac ysgrifennu llythyr at y Prif Weinidog i dynnu sylw at bwysigrwydd gallu beicio i'r ysgol.

## Amlinelliad o'r sesiwn

Disgyblion i drafod y pynciau allweddol y gellid eu cynnwys yn y llythyr. Er enghraifft:

- Mae beicio'n dda i'r amgylchedd
- I annog cymaint o ddisgyblion â phosibl i feicio i'r ysgol, ar gyfer siwrneiau dyddiol, neu wrth hamddena gyda'u teulu
- Byddai storfa beiciau yn yr ysgol yn annog mwy o ddisgyblion i feicio i'r ysgol
- Cynnal 'Diwrnod beicio' yn yr ysgol i rannu mor bwysig yw beicio i'n hamgylchedd ac iechyd

Annog disgyblion i ddefnyddio'r rhestr wirio ysgrifennu perswadiol i'w helpu i ysgrifennu eu llythyr at y Prif Weinidog.

## Estyniad

Cael disgyblion i gwblhau'r gweithgaredd 'pe byddwn i'n Brif Weinidog'.

## Ysbrydolwyd gan:

Adnodd gan yr **Bikeability Trust** yw hwn. Os ydych chi'n cymryd rhan yn Wythnos Beicio i'r Ysgol rhwng 25 i 29 Medi 2023, cofiwch wneud adduned gyda nhw am gyfle i ennill! Ewch i [www.bikeability.org.uk/cycletoschoolweek](www.bikeability.org.uk/cycletoschoolweek) i ddarganfod mwy.

**Amser:**
30 mund

**Adnoddau:**
Rhestr Wirio

Ysgrifennu Perswadiol (1 fesul disgybl)

**Gweithgaredd unigol/grŵp:**
Unigol

**Meysydd dysgu a phrofiad Cwricwlwm i Gymru**
Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

© Sustrans 2023. Mae Sustrans yn elusen gofrestredig yn y DU rhif 326550 (Cymru a Lloegr) SC039263 (Yr Alban).

# Wythnos Seiclo i'r Ysgol

## Rhestr wirio ysgrifennu perswadiol

- [ ] A yw'n glir pwy yw eich cynulleidfa?
- [ ] A oes neges gref yn eich teitl? Mae angen ichi fachu sylw'r darllenydd! Efallai y gallech ddewis eich teitl unwaith y byddwch wedi ysgrifennu eich darn – gallai rhywbeth gwych ddod i'r amlwg wrth ichi ysgrifennu.
- [ ] A ydych chi wedi cynnwys rhesymau i'r darllenydd gefnogi eich safbwynt?
- [ ] A ydych wedi ymchwilio a rhannu ffeithiau a thystiolaeth i gefnogi eich rhesymau?
- [ ] Efallai yr hoffech ddefnyddio cwestiynau rhethregol tuag at ddiwedd eich llythyr.
- [ ] Defnyddiwch ddatganiad cryf i gloi i roi crynodeb o'ch dadl.

# Templed llythyr



Annwyl…

Fy enw i yw …

Hoffwn wybod beth ydych chi'n bwriadu ei wneud ynghylch …

Mae'r mater hwn yn bwysig i mi oherwydd …

Rwy'n meddwl y dylech chi …

Yr eiddoch yn gywir …